

Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol
Yr unfed cyfarfod ar ddeg, negeseuon allweddol a chamau gweithredu

Teitl y Cyfarfod	Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)			Dyddiad	22.05.2019
Rhif y Cyfarfod	11	Amser Dechrau	10:00	Amser Gorffen	16:00
Presennol	<p>Peter Davies (Cadeirydd) (Partneriaeth PD), Peter Barham (Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr), Phil Hollington (Cragen Llŷn a Môn), Gill Bell (Cymdeithas Cadwraeth Forol a Cyswllt Amgylchedd Cymru), Jetske Germing (Fforwm Arfordir Sir Benfro ac Ynni Môr Cymru), Emily Williams (RSPB), Lucy Taylor (Partneriaeth Aber Afon Hafren), Emma McKinley (Prifysgol Caerdydd), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Nick Barcock (Dŵr Cymru Welsh Water), Dan Crook (Cyfoeth Naturiol Cymru), Hannah Osman (Prosiect Refill), Richard Weaver (Ekosgen), Jake Davies (Prosiect Maelgwn ZSL), Fenella Wood (Prosiect Maelgwn ZSL), Nick O'Sullivan (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Dan Crook (Cyfoeth Naturiol Cymru), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Deanna Groom (RCAHMMW), Mike Parry (Partneriaeth Pwllheli), Mike Butterfield (Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol), Duncan Savage (Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol), David Jones (Ynni Morol), David Tudor (Ystad y Goron), Rachel Sharp (Ymddiriedolaethau Natur Cymru), Becky Phillips (JNCC) Claire Carew (Marchnata Twristiaeth).</p> <p>Gian Marco Currado, Gareth Bevington, Alison Kitchener, Julia Williams, Rob Floyd, Gary Douch, Elen King, Louise George, Hilary Evans, Rebecca Rees, Lisa Roberts-Clarke (Llywodraeth Cymru).</p>				
Cyflwynwyr	<p>Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru) Richard Weaver (Ekosgen) Jake Davies (Cymdeithas Sŵoleg Llundain, ZSL) Fenella Wood (Cymdeithas Sŵoleg Llundain, ZSL) Gian Marco Currado (Llywodraeth Cymru) Louise George (Llywodraeth Cymru) Elen King (Llywodraeth Cymru)</p>				
Ymddiheuriadau	<p>Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), David McDermott (Un Llais Cymru), Peter Chaniotis (JNCC)</p>				

#	Eitem ar yr Agenda
1.	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau
2.	Diweddariad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd – Gareth Bevington, Llywodraeth Cymru
3.	Cefnogi Cynaliadwyedd Economaidd ac Amgylcheddol Sectorau Morol y DU – Richard Weaver, Ekosgen
4.	Y Prosiect Maelgwn – Jake Davies a Fenella Wood, Cymdeithas Sŵleg Llundain (ZSL)
5.	Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig – Louise George, Llywodraeth Cymru
6.	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Louise George ac Elen King, Llywodraeth Cymru
7.	Ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd – Elen King
8.	Crynodeb a myfyrio ar y diwrnod – Peter Davies

Cyflwyniad

Mae Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) yn gweithredu fel fforwm ar gyfer trafodaeth a dadl, yn ogystal â chymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru, ar bolisi morol ac arfordirol strategol. Dyma'r grŵp rhanddeiliaid cyffredinol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, sy'n eistedd ochr yn ochr â Grŵp Gweithredu ar Bysgodfeydd Môr Cymru, sef fforwm arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd.

Mae WMAAG yn cynnwys 32 o randdeiliaid arweiniol, sy'n cynrychioli buddiannau'r holl sectorau sydd â buddiant neu fuddsoddiad yn y Sector Morol yng Nghymru. Mae manylion y sectorau a'r sefydliadau arweiniol wedi'u cynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Grŵp.

Eitem 1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai nifer o aelodau'n ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach gan fod cyfarfod y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cael ei gynnal ym Mae Caerdydd y bore hwnnw.

Estynnwyd croeso i'r cyflwynwyr, yn cynnwys: Richard Weaver; cyflwynwyr y Prosiect Maelgwn a Gareth Bevington.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Jim Evans, David McDermott a Peter Chaniotis.

Eitem 2. Is-adran y Môr a Physgodfeydd: Diweddariad – Gareth Bevington

Croesawodd Gareth Bevington yr aelodau i'r cyfarfod, sef ei ail gyfarfod WMAAG ers iddo gychwyn yn y swydd. Cyflwynwyd trosolwg o strwythur yr is-adran a'r newidiadau. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwyr yn ymdrin â pholisi morol ar y cyd; mae Gareth yn gyfrifol am bysgodfeydd rhyngwladol a physgodfeydd dŵr croyw; ac mae Graham Rees yn arwain ar baratodau domestig yn ymwneud â Brexit a pholisïau gorfodi ar gyfer Cymru.

Rôl Gareth oedd cynnig gallu ychwanegol ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae adnoddau pellach wedi'u sicrhau, gyda dyfodiad Gian Marco Currado i'r Adran yn ddiweddar.

Amcan y grŵp oedd ystyried gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn awr a hefyd ystyried dyfodol ein moroedd a'r dulliau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a'r diwydiant. Enghraifft dda o randdeiliaid yn siapio polisïau yw'r Cynllun Morol. Cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru – sy'n ddogfen arwyddocaol – ei greu trwy wneud llawer o ddefnydd o randdeiliaid. Mae ar fin cael ei gwblhau a'r disgwyl yw y bydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Ymhellach, mae Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig wedi'i lunio ac mae angen gwneud gwaith pellach arno gyda rhanddeiliaid.

Mae parodrwydd ar gyfer Brexit wedi cael cryn effaith ar holl adrannau'r llywodraeth. Mae hyn wedi arwain at gydbwyso adnoddau a blaenoriaethau. Mae gwaith i baratoi'r diwydiant ar gyfer Brexit 'Dim Cytundeb' wedi arwain at gyflwyno sioeau teithiol pysgodfeydd, bwletinau pysgodfeydd, cyfathrebu trwy gyfrwng gwefan Paratoi Cymru, ac ymgysylltu ag arbenigwyr allanol i ystyried cadwyni cyflenwi pysgodfeydd. Cydnabuwyd yr her o ran sut byddwn yn ein trefnu ein hunain yn yr is-adran er mwyn bwrw ymlaen â ffrydiau gwaith.

Bu'n rhaid i'r is-adran gynllunio ar gyfer nifer o senarios o gofio'r ansicrwydd ynghylch gadael yr UE. Mae 'Dim Cytundeb' yn dal i fod yn bosibilrwydd a bydd Llywodraeth Cymru'n arfaru'r blaenoriaethau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Roedd deddfwriaeth wedi'i pharatoi gydag Offerynnau Statudol wedi'u cyflwyno. Rhan o'r rhaglen waith oedd paratoi ar gyfer y DU yn gadael yr UE, a sicrhau bod gennym lyfr statud gweithredol yng Nghymru pan fyddwn yn gadael. Deddfwriaeth hollbwysig oedd Bil Pysgodfeydd y DU, y mae Llywodraeth Cymru'n ei gefnogi. Mae'n cynnwys polisïau pysgodfeydd penodol ar gyfer Cymru ac mae'n darparu'r pwerau a'r dulliau rheoli angenrheidiol inni ar gyfer cyflawni polisi pysgodfeydd yng Nghymru. Y datganiad pysgodfeydd ar y cyd fydd y dull allweddol ar gyfer ymgysylltu â

rhanddeiliaid er mwyn helpu i siapio ein polisiâu. Mae hwn yn cael ei lunio ar y cyd gan y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r Bil Pysgodfeydd yn estyniad i'n cymhwysedd deddfwriaethol o safbwynt pysgodfeydd ym mharth Cymru, sy'n gyflawniad da. Disgwylir cael eglurder ynghylch amseru'r Bil Pysgodfeydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae'r gwaith o gaffael llongau gorfodi pysgodfeydd wedi'i gwblhau. Yn y deufis diwethaf mae'r ddwy long olaf wedi'u caffael ac mae'r gwaith o hyfforddi'r swyddogion gorfodi wedi cychwyn.

Yn ystod y chwe mis nesaf disgwylir i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd ddatblygu. Dyma fydd y man cychwyn ar gyfer siapio ein polisiâu yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd yr is-adran yn canolbwyntio hefyd ar bolisi pysgodfeydd domestig; bydd ailflaenoriaethu Cregyn Moch a Chregyn Bylchog yn cael ei drafod yng nghyfarfod WMFAG ar 25 Mehefin.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau.

Crybwyllwyd hyfforddiant i swyddogion gorfodi a pha un a fydd mesurau cadwraeth yn cael eu hystyried. Esboniodd Gareth fod yr hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu ar hyn o bryd er mwyn i'r staff allu ymglyfarwyddo â'r llongau.

Mynegodd Gill Bell bryder ynghylch yr effaith a gaiff Brexit ar yr astudiaeth cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn perthynas ag Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Roedd twristiaeth forol wedi'i chynnwys yn hytrach na chadwraeth. Roedd Gill yn siomedig gan ei bod eisiau gweld dull mwy cyfannol a gweld pa fanteision y gallai'r rhwydweithiau morol eu cynnig.

Cam gweithredu:

Gofynnodd Emily Williams a oedd difrod i safleoedd hanesyddol llongau drylliedig yn faes gwaith y gellid hyfforddi swyddogion gorfodi ynddo fel rhan o'u rôl. Cadarnhaodd Gareth y gellid mynd â'r pwynt hwn yn ôl i'r swyddfa a'i gadarnhau ymhellach.

Eitem 3. Gweithdy Cefnogi Cynaliadwyedd Economaidd ac Amgylcheddol Sectorau Morol y DU – Richard Weaver, Ekosgen

Cyflwynodd Richard Weaver o Ekosgen yr astudiaeth i'r grŵp. Mae datblygu'r sylfaen tystiolaeth wedi arwain at gyfres o gwestiynau ynghylch sut gallai cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol y sector morol helpu i gyfarwyddo datblygiad dulliau cymorth a dulliau cyllido yn y dyfodol.

Y 7 sector yr ymdriniwyd â hwy oedd:

- Dyframaethu
- Prosesu bwyd môr
- Pysgodfeydd dal masnachol
- Cynaeafu a thyfu gwymon masnachol
- Ynni adnewyddadwy alltraeth
- Datgomisiynu olew a nwy
- Twristiaeth Forol

Esboniodd Richard fod Marine Scotland wedi comisiynu Ekosgen i archwilio'r dystiolaeth i ddangos yr heriau, y cyfyngiadau a'r methiannau yn y farchnad sy'n wynebu'r sectorau hyn, a'r blaenoriaethau y dylid ymdrin â hwy. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn llenwi'r bylchau mewn dealltwriaeth ac yn helpu i ddatblygu'r achos ar gyfer cynlluniau cymorth i'r diwydiant yn y dyfodol.

Nodwyd amcanion y gweithdy. Tynnodd y drafodaeth sylw at y gwahaniaeth yn y gweinyddiaethau datganoledig a'r polisiâu sylfaenol h.y. pwyslais Llywodraeth yr Alban ar dwf cynaliadwy a defnydd Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trafododd Julia Williams y mater o gynnig eglurder i randdeiliaid ynghylch y strwythur a diffinio ble y ceir gorgyffwrdd rhwng y gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn helpu mwy ar randdeiliaid.

Cadarnhaodd Richard fod y diffiniad o dwristiaeth forol yn cynnwys gweithgareddau hamdden, fel hwylio.

Rhannwyd y rhanddeiliaid yn grwpiau a rhoddwyd amser iddynt ystyried y prif faterion – y cyfleoedd, y cyfyngiadau, yr heriau a'r blaenoriaethau sy'n berthnasol i'r sector. Nodwyd adborth ar y taflenni pwrpasol.

Yn ystod y trafodaethau cadarnhaodd Peter Davies pa mor bwysig yw cael ymatebion cryf gan Gymru a'r blaenoriaethau a'r negeseuon allweddol y dylid eu coladu yn astudiaeth Richard.

Ceir twristiaeth arfordirol forol a gwyllo bywyd gwyllt yng Nghymru a chydabuwyd bod gorgyffwrdd i'w gael rhwng diwylliant, bwyd a thwristiaeth a bod angen eu hintegreiddio'n well. Yr heriau cychwynnol oedd natur dymhorol y sector morol; natur anghysbell trefi arfordirol, tra'n cael pobl iau i aros yn eu hardaloedd a darparu amwynderau angenrheidiol.

Roedd diffyg integreiddio rhwng cyllid ar gyfer prosiectau ar y tir a phrosiectau arfordirol yn broblem.

Nodwyd y gwahaniaeth o ran y modd y mae Awstralia ac America yn trin eu hamgylcheddau morol ac yn creu parciau morol.

Pennwyd blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer pysgodfeydd môr a physgod cregyn. Mae nodiadau canllaw wrthi'n cael eu llunio ar gyfer cynaeafu gwymon, gan fod yr ymholiadau'n cynyddu.

Cam gweithredu

Os oedd gan y grŵp sylwadau pellach, dywedodd Richard y dylid eu hanfon ato ef. Bydd Hilary Evans yn dosbarthu manylion cyswllt Richard i'r aelodau.

Aeth Peter Davies ati i grynhoi pa mor bwysig yw twristiaeth forol a rhoi dull pendant ar waith. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru eisoes yn cynnwys tystiolaeth y gellid ei defnyddio.

Cam gweithredu

Soniodd Claire Carew am Strategaeth Twristiaeth bresennol Cymru, y byddai'r aelodau ar eu hennill o'i gweld. Y dyddiad cau ar gyfer y gwaith yw diwedd mis Mai. Bydd Claire yn ei dosbarthu i aelodau WMAAG fel y gallant gyflwyno sylwadau.

Eitem 4. Cyflwyniad ar y Prosiect Maelgwn – Jake Davies a Fenella Wood, Cymdeithas Sŵoleg Llundain (ZSL)

Rhoddodd Jake Davies a Fenella Wood o Gymdeithas Sŵoleg Llundain (ZSL) gyflwyniad. Cafodd y prosiect Maelgwn gyllid gan Lywodraeth Cymru am ddwy flynedd. Anwen yw'r 'prop' ar gyfer dysgu pysgotwyr sut i afael yn y pysgod. Cânt eu gwarchod ac ni ddylid eu glanio, neu bydd y pysgotwyr yn cael dirwy. Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio gyda physgotwyr er mwyn deall y rhywogaeth, ei gwerth diwylliannol a'r modd y mae'n elfen bwysig o dreftadaeth forol.

Mae maelgwn wedi'u canfod yng Nghymru ac lwerddon a'r gred o'r blaen oedd eu bod yn byw yn nyfroedd Cymru. Mae'r prosiect yn gweithio gyda'r pysgotwyr i gofnodi eu straeon a'u profiadau a llunio canllaw arferion gorau.

Prif nodau'r prosiect yw:

Deall statws ac ecoleg y rhywogaeth yng Nghymru;

Pysgotwyr i weithredu fel stiwardiaid er mwyn gwarchod Maelgwn;

Cymunedau i helpu i ddadlennu treftadaeth Maelgwn a'i rhannu ar draws y cenedlaethau;

Datblygu cynllun gweithredu er mwyn nodi'r camau allweddol ar gyfer diogelu eu dyfodol.

Cyn bo hir bydd gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant a bydd deunyddiau archif sy'n mynd yn ôl i 1875 yn cael eu harchwilio. Bu'r Sioe Deithiol Hanes Maelgwn yn boblogaidd dros ben, gan fynd yn fyd-eang.

Eitem 5. Fframwaith Rheoli a Chynllun Gweithredu Ardaloedd Morol Gwarchodedig – Louise George, Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Louise George gyflwyniad yn sôn am y fframwaith cyhoeddedig sy'n cwmpasu 2018-2023. Mae gan y rhwydwaith grŵp llywio rheoli ac mae'n gweithio tuag ar gael cyd-ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol yn rhedeg ochr yn ochr â'r fframwaith. Mae'r cylch adolygu a diweddarau cyntaf yn ymwneud â chytuno ar Gynllun Gweithredu 2019-20. Cafwyd 23 o gamau gweithredu ac mae gwaith yr ymchwilyr yn parhau.

Bydd angen i'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen fod yn hyblyg ac ni fyddid eisiau creu grwpiau o'r fath i ymdrin â phob cam gweithredu, gan y byddai hynny'n rhy feichus. Yr hoff ddewis yw rhannu gwaith y grŵp llywio a rheolaeth y safle'n bedwar rhanbarth. Nododd Louise fod yna broblem o ran cyllid blynyddol, ond bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach gan y grŵp llywio.

Trafodwyd y term Gwasgfa Arfordirol a'i ddiffiniad, a grynhowyd fel bod yn 1 o blith y 7 ffactor allweddol ar yr effaith ar yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig – eu Cynefin a'u rheolaeth amgylcheddol a'u cysylltiad â'r cynlluniau rheoli traethlin.

Cam gweithredu

Holwyd ynghylch argaeledd cyngor a chanllawiau. Ailddosbarthodd Louise y ddogfen i'r grŵp.

Holwyd hefyd ynghylch argaeledd llenyddiaeth yn sôn am Bysgota Môr.

Bydd Louise yn cadarnhau'r pwynt hwn.

Eitem 6. Gweithdy Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Esboniodd Louise George ac Elen King pa mor bwysig yw ymgysylltu, ynghyd â'r holl weithgareddau a roddir ar waith yn y llywodraeth.

Dyma'r amser i sicrhau bod yr holl strwythurau ymgysylltu mewn lle. Lanswyd yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd ar 1 Mai, a dyma'r cam cyntaf o ran ystyried y drafodaeth ynghylch dyfodol polisi pysgodfeydd Cymru gyda chyfle unigryw i bennu ein polisi ein hunain ar gyfer Cymru.

Gofynnwyd i'r grŵp am sylwadau ynghylch dull priodol o ymgysylltu a chydweithio yn y dyfodol ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth/ecosystemau.

Crybwyllwyd y cynnig i sefydlu is-grŵp WMAAG a chanddo aelodaeth gyfnewidiol ac amserlen hyblyg ar gyfer cyfarfodydd.

Cadarnhaodd Elen y grwpiau presennol a geir yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd a'r dulliau cyfathrebu presennol.

Gofynnwyd i'r aelodau dreulio peth amser yn ateb y cwestiynau ar y templedi, yn ymwneud â'r canlynol:

Sut gellir gwella a chryfhau ymgysylltu;

Sylwadau ar un is-grŵp/grŵp cyswllt ar gyfer materion yn ymwneud â bioamrywiaeth/ecosystemau; a pha un a yw'r ffordd a ddefnyddir i rannu gwybodaeth yn gweithio.

Cyflwynodd yr aelodau sylwadau ynghylch yr angen i ymgysylltu'n well a'r angen iddo ddigwydd yn gynharach ac mewn modd mwy ystyrlon a chydweithredol. Dylid defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru'n amlach; dylid ystyried y posibilrwydd o uno grwpiau. Fodd bynnag, ystyriwyd mai cyfarfodydd wyneb yn wyneb oedd y dull mwyaf effeithiol.

Diolchodd Hilary Evans i'r aelodau am eu cyfraniad a'r posibilrwydd o lunio cylchlythyr ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol ymhlith y grŵp.

Aeth y Cadeirydd ati i grynhoi'r trafodaethau, gan gydnabod bod llawer o waith i'w wneud i wella'r dulliau cyfathrebu presennol, a chysylltu â meysydd eraill, fel Croeso Cymru.

Canlyniadau allweddol y gweithdy ymgysylltu:

- Cafodd cynnig i lunio grŵp, a fyddai'n cael ei arwain ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ymdrin â meysydd gwaith bioamrywiaeth ac ecosystemau morol, gefnogaeth eang.
- Mae hyblygrwydd o ran amllder cyfarfodydd, datblygu agendâu ac aelodaeth yn allweddol.
- Yr aelodau'n gefnogol i lefel ymgysylltu Is-adran y Môr a Physgodfeydd.
- Yr aelodau'n elwa ar gyfleoedd rhwydweithio a ddaw yn sgil WMAAG, er y gellid gwella'r cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau.
- Roedd aelodau WMAAG o'r farn fod yr ymgysylltu'n well o lawer na chyda chymheiriaid mewn fforymau eraill, ond gellid ei wella er mwyn cael mwy o ymgysylltu dwy ffordd a gallu canolbwyntio mwy ar dasgau.

- Dywedodd yr aelodau ei bod yn bwysig cael lefel ymgysylltu swyddogol uchel a chawsant eu hannog i gael Cyfarwyddwr a Dirprwy Gyfarwyddwr yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd WMAAG.
- Roedd yr aelodau o'r farn fod WMFAG yn dryloyw iawn o safbwynt ei flaenoriaethau, a bod hynny'n beth braf i'w weld.

Awgrymiadau ar gyfer gwella ymgysylltu:

- Pennu amcanion ac adroddiadau canlyniadau ar gyfer grwpiau gorchwyl.
- Agendâu cydweithredol.
- Diweddariad i randdeiliaid ar ffurf cylchlythyr hyperddolen / ffrwd twitter. Dylid eu cael yn amlach er mwyn bod yn fwy cyfredol.
- Defnyddio technolegau yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb; e.e. gweminarau, telegynadleddau.
- 'Safle cyffredin' neu rywbeth o'r fath ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Cael cynrychiolwyr polisi morol yn WMFAG a swyddogion Pysgodfeydd yn WMAAG.

Ceir canlyniadau manwl yn **atodiad 1**.

Gian Marco Currado – Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr, Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Gian Marco gyflwyniad byr, lle y'i cyflwynodd ei hun i'r grŵp. Amlinellodd Gian Marco yr heriau a geir yn ei faes portffolio a'r effaith a gaiff Brexit ar Lywodraeth Cymru ac adhodau.

Pwysleisiodd pa mor bwysig yw cael y mathau iawn o drafodaethau gyda rhanddeiliaid ac roedd yn disgwyl cyfarfod â'r aelodau unigol cyn bo hir.

Diolchodd Peter Davies i Gian Marco am lefel ei ymgysylltu a'i ymrwymiad i'r maes gwaith hwn.

Eitem 7. Ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd – Elen King, Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Elen King drosolwg o'r ymgynghoriad 16 wythnos a lansiwyd ar 1 Mai. Roedd yr ymgynghoriad wedi ymrwymo i'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, a gynhwyswyd yng Nghynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau â safonau amgylcheddol a buddsoddi mewn llongau, staff a systemau newydd er mwyn gorfodi'r safonau hynny. Man cychwyn oedd yr ymgynghoriad ar gyfer trafodaeth ynghylch siapia strategaethau morol a physgodfeydd Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd y gwaith yn ailgadarnhau ymrwymiad i Amgylchedd y Môr, cyfleoedd pysgota a rheoli pysgodfeydd masnachol yn gynaliadwy. Golyga'r fframwaith cyfreithiol presennol nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol llawn eto dros bysgodfeydd ym Mharth Cymru.

Mae rheolaeth pysgodfeydd yn gweld newid yn y modd y caiff cwota ei ddyrannu rhwng gweinyddiaethau'r DU a allai arwain at gyfran decach i fflyd Cymru. Hefyd, soniwyd am ymrwymiad yn ymwneud â defnyddio Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf, ond gan archwilio hefyd ddewisiadau amgen i gyfundrefnau rheoli cynaliadwy.

Dylid rheoli stociau pysgod er budd Cymru a chymunedau arfordirol Cymru. Roedd y cyfleoedd yn cynnwys buddsoddi yn niwydiant pysgota Cymru er mwyn ei alluogi i wneud yn fawr o'r adnoddau.

Roedd Cymru'n wahanol i weddill y DU mewn dau beth: mae'r diwydiant wedi'i seilio ar bysgod cregyn yn hytrach na pysgod asgello; ac mae mwyafrif yr allforion yn fyw, heb eu prosesu, ac yn mynd bron yn gyfan gwbl i'r UE.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau. Nododd Nick O'Sullivan y byddai pysgotwyr yn dymuno rhoi adborth. Amlinellodd Gill Bell ei barn ynghylch cael dull mwy cyfannol, heb ganolbwyntio cymaint ar bysgodfeydd.

Cyflwynodd Tegryn Jones sylwadau ynghylch y modd yr oedd Brexit a'n Tir wedi ymgynghori'n helaeth gyda chymunedau. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymunedau arfordirol yn cael eu cynnwys yn llwyr.

Gofynnwyd i'r grŵp gyfrannu unrhyw sylwadau at yr ymgynghoriad. Cadarnhaodd Elen y disgwylid cynnal digwyddiadau'n ymwneud â'r ymgynghoriad ar hyd yr arfordir cyn yr haf.

Eitem 8. Crynodeb a myfyrio ar y diwrnod

Cadarnhaodd Peter Davies fod y grŵp wedi cael llawer o gyfle i drafod a bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol.

Mae Ystad y Goron wedi llunio adroddiad cymdeithasol ac economaidd a gellir rhannu eu casgliadau gyda'r aelodau. Roedd Hilary Evans yn fodlon rhannu'r wybodaeth hon gyda'r grŵp.

Soniodd yr aelodau pa mor ddefnyddiol yw cyfarfodydd WMAAG ar gyfer rhwydweithio a hwyluso cydweithio ar draws rhwydwaith rhanddeiliaid Cymru. Soniodd yr aelodau hefyd am y ffaith fod WMAAG yn gymuned, ac y dylid dal gafael ar y drefn unigryw hon. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fframwaith cyffredin ar gyfer y modd yr awn i'r afael â'n busnes trwy ddefnyddio iaith gyffredin.

Atodiad 1 – A ydych yn credu bod ymgysylltu gyda chi, trwy eich Grwpiau Rhanddeiliaid, yn gweithio?

<p>Sut ydych yn dymuno ymgysylltu â ni?</p>	<p>Cyfuniad o'r canlynol: cyfarfodydd fel WMAAG, grwpiau â mwy o ffocws er mwyn gallu gweithio ar y cyd, cyflwyniadau, diweddariadau e-bost, cylchlythyrau, defnyddio gwefan .GOV Llywodraeth Cymru. Cynnwys trosolwg o beth yn union yw'r holl grwpiau yn y diweddariad i randdeiliaid, yr hyn y mae'r grwpiau/fforymau'n ei wneud, â phwy i gysylltu, a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan.</p> <p>Mae rhwydweithio yn y cyfarfod ehangach yn bwysig iawn.</p> <p>Nid oes angen argraffu'r papurau o angenrheidrwydd.</p> <p>'Safle cyffredin' neu rywbeth o'r fath ar gyfer rhannu gwybodaeth Gweminarau byrrach, yn amlach Angen gallu canolbwyntio ar dasgau – nid diweddariadau'n unig Gwell cyfathrebu ynghylch rhai materion e.e. bioamrywiaeth Gwahanol grwpiau Ymgynghoriadau cynharach, ystyrlon, cydweithredol Y diweddariad ysgrifenedig ar gyfer rhanddeiliaid yn ddefnyddiol iawn, ond llawer o bethau ddim yn cyd-fynd â'r amserlenni. – hir, Dim dull clir ar gyfer gofyn cwestiynau i rai sy'n cyfrannu at ddiweddariadau i randdeiliaid</p> <p>Anodd i'r rhai nad oes ganddynt staff polisi. Cynrychiolwyr twristiaeth? Angen targedu ein hamser. Mae rhai aelodau sy'n eistedd ar grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn teimlo bod WMAAG yn ailadrodd trafodaethau grwpiau eraill. Mae aelodau eraill yn teimlo ei fod yn rhoi trosolwg da ac yn rhoi'r diweddaraf iddynt am faterion allweddol.</p>
---	--

	<p>Mae'r RSPB a Cyswllt Amgylchedd Cymru'n gweithio ar draws holl feysydd gwaith gwahanol Is-adran y Môr a Physgodfeydd ac o'r herwydd maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod meysydd polisi gwahanol yn fanwl. Mae rhai grwpiau'n llwyddo i wneud hyn yn well nag eraill (e.e. mae WMFAG yn canolbwyntio ar bysgodfeydd ac yn ystyried stociau penodol) tra y mae eraill yn canolbwyntio mwy ar roi trosolwg a chynnig cyfleoedd i rwydweithio. Yn ein tyb ni, mae gan WMAAG gwmpas eang iawn. Felly, byddem yn croesawu is-grŵp Bioamrywiaeth newydd WMAAG er mwyn gallu cynnal trafodaethau manylach ynghylch rheoli'r môr yn gynaliadwy.</p>
<p>Pa fanteision a gewch yn sgil y grwpiau yr ydych yn perthyn iddynt?</p>	<p>Rhwydweithio, gwybodaeth, cyfle i 'gyflwyno' pobl i ddull ar y cyd/cydweithredol o symud ymlaen.</p> <p>Deall safbwyntiau ac ysgogiadau pobl eraill. Tir niwtral. Cyfleoedd i rwydweithio.</p> <p>WMAAG – cysylltiadau cyfarfodydd, cael diweddariadau, ambarél. Mae WMAAG yn wych fel ffordd rhwydweithio a ffordd o gyfarfod â rhanddeiliaid eraill wrth gael diweddariadau hefyd yn ymwneud â'u meysydd. Gellid newid rhywfaint ar fformat WMAAG – fodd bynnag, mae'r rhanddeiliaid yn ddiolchgar fod ymgysylltu Is-adran y Môr a Physgodfeydd wedi datblygu cymaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid ydynt eisiau colli hynny na'r ffordd. Mae ymgysylltu WMAAG yn llawer gwell nag ymgysylltu ei gymheiriaid mewn fforymau eraill e.e. MMO. Roedd rhai o'r farn na cheid ymgysylltu dwy ffordd bob amser. Roedd rhai o'r farn fod WMAAG yn ceisio ymdrin â phob maes tra y mae WMFAG yn trafod materion go iawn lle y gallent gael effaith ystyrlon.</p>
<p>A ydych yn cael yr hyn yr ydych ei eisiau/angen gan y grwpiau?</p>	<p>Y brif ffordd o ystyried synergedd Yn rhannol – gweler yr awgrym ynghylch cael grŵp thematig newydd Gellid defnyddio technolegau yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb.</p>

<p>Beth arall yr hoffech ei gael gan eich grwpiau rhanddeiliaid?</p>	<p>Mwy o de a theisennau! Deall cylch gwaith sefydliadau a beth yw eu hagendâu Mwy o ymddiriedaeth y ddwy ffordd</p> <p>Hyblygrwydd – mae'r Bartneriaeth Moroedd Glân yn enghraifft dda.</p> <p>Grwpiau a chanddynt dasgau a chyfeiriad penodol. Mwy yn iawn, ond mae angen cael amcanion clir.</p>
<p>A oes unrhyw rai o'r grwpiau nad ydynt yn gweithio?</p>	<p>Na – er, efallai y gellid uno rhai?</p> <p>? Yr is-grŵp bord gron Moroedd ac Arfordiroedd o bosibl Brexit Moroedd ac Arfordiroedd – ni chyflawnodd ei gylch gwaith, canolbwyntio gormod ar bysgodfeydd. Nid yw'n cyfarfod ar hyn o bryd. Nid yw amllder cyfarfodydd WMAGG yn ddelfrydol – agored i eraill.</p> <p>Nid yw'r is-grŵp Moroedd ac Arfordiroedd wedi cyfarfod ers peth amser. Grŵp dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ydoedd i raddau mwy o lawer na grwpiau bord gron eraill, ac nid oedd yn cynnwys y grŵp wrth greu canlyniadau yn gymaint ag y gallai fod wedi'i wneud. Ein dealltwriaeth ni yw bod grwpiau bord gron eraill wedi cymryd rhan weithredol yn y dasg o gynhyrchu canlyniadau ac y byddant yn cyfrannu at bapurau gwyn ac ati. Yn hytrach na chanslo'r is-grŵp Moroedd ac Arfordiroedd, buaswn yn argymhell y dylid ystyried sut gellid gwneud defnydd o'r arbenigedd o fewn y grŵp. Efallai y byddai telegynhadledd gyda'r aelodau'n ddefnyddiol er mwyn helpu gyda hyn.</p>
<p>A ddylem gael llai o grwpiau/uno grwpiau?</p>	<p>Dylid osgoi ailadrodd, gan fod yna bosibilrwydd o wneud hyn ar draws y grwpiau.</p> <p>Na – gall pobl ddarllen agendâu a dewis peidio â mynychu. Yn fy marn i, mae angen ymgysylltu mwy, nid llai, gyda rhanddeiliaid.</p>

<p>Beth yw eich barn ynglŷn â'r grŵp arfaethedig a arweinir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer ymdrin â meysydd gwaith bioamrywiaeth ac ecosystemau morol?</p>	<p>Cyfarfod pan fo angen – ar gyfer cyfrannu, gwneud penderfyniadau a chyflwyno adborth Cynhwysol</p> <p>Cefnogaeth unfrydol – ond mae hyblygrwydd yn hollbwysig. Cynnwys eraill y tu allan i WMAAG. Telegynadledau'n opsiwn. Bydd angen cymorth ysgrifenyddiaeth.</p> <p>Cefnogi'n llwyr!</p> <p>Byddai'n gadarnhaol pe gallai'r grŵp greu'r agenda h.y. pe gofynnid i randdeiliaid beth y maent hwy eisiau ei drafod/canolbwyntio arno. Yn y gorffennol, rydym wedi sylwi bod rhwystredigaeth yn tueddu i ddigwydd gan nad oes eitemau o ddi-ddordeb wedi'u cynnwys ar yr agenda (gan arwain at bryderon bod y pwnc yn cael ei osgoi) neu gan nad yw rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r canlyniadau. Gyda hyn mewn cof, byddai'n gadarnhaol gwneud mwy o ddefnydd o'r arbenigedd a geir yn yr ystafell (mae'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid cynllunio morol yn enghraifft dda o hyn – rydym yn cyflwyno sylwadau'n rheolaidd ar ganlyniadau).</p>
<p>Beth yw eich barn ynglŷn â natur hyblyg y grŵp hwn o ran amserlen ac aelodaeth?</p>	<p>WMAAG 2x y flwyddyn Grŵp newydd – yn fodlon ar y cyfan gyda'r hyblygrwydd</p> <p>Cadarnhaol – ond rhaid cael rhywfaint o strwythur ac amserlenni, a digon o rybudd ar gyfer cyflwyno sylwadau ar ddogfennau ac ati.</p> <p>Mae trefniant hyblyg yn swnio'n synhwyrol.</p>
<p>Sut gallwn sicrhau'r amrywiaeth a'r cydbwysedd</p>	<p>Cynnwys eraill trwy gyfrwng rhwydweithiau, yn dibynnu ar arbenigedd a phwnc y cyfarfod. Y gallu a'r amser i ddogfennu gwybodaeth i aelod-rwydweithiau.</p> <p>Rhybudd ymlaen llaw a/neu gyfleusterau telegynadleda.</p>

<p>angenrheidiol o ran presenoldeb ym mhob cyfarfod?</p>	<p>Byddai cynnal telegynadledau/galwadau skype anffurfiol byr, 1-2 awr, yn rheolaidd yn gyfle da i bobl ymgysylltu mewn modd hyblyg.</p> <p>Byddai'n braf hwyluso ymdeimlad o "dîm" yn yr is-grŵp bioamrywiaeth.</p>
<p>Sut gallwn sicrhau y bydd y grŵp hwn yn ychwanegu gwerth at fforymau eraill ac yn osgoi ailadrodd?</p>	<p>Byddai'n ddefnyddiol i nifer o aelodau WMAAG bob amser. Rhai aelodau craidd ond byddai gan eraill ddiddordeb achlysurol.</p>
<p>Unrhyw sylwadau eraill?</p>	<p>Er bod cael grwpiau ar wahân yn ddefnyddiol er mwyn canolbwyntio ar dasgau penodol, mae'n bwysig sicrhau na chaiff y cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd (neu'r timau yn yr is-adran) eu hanghofio. Gyda hyn mewn cof, byddai'n braf gweld y gangen cadwraeth forol yn mynychu mwy o gyfarfodydd Moroedd ac Arfordiroedd ac WMFAG, a swyddogion pysgodfeydd yn mynychu cyfarfodydd y grŵp bioamrywiaeth ar adegau.</p>

C2 – A ydych yn credu bod y ffordd y rhannwn wybodaeth a datblygiadau'n gweithio?

<p>Yn eich tyb chi, beth yw'r sianeli cyfathrebu gorau ar gyfer rhanddeiliaid Is-adran y Môr a Physgodfeydd?</p>	<p>Mae'r wefan yn broblemus – dim ond rhestrau yn y bôn.</p> <p>Gellid defnyddio gwybodaeth sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhannu gwybodaeth - Grwpiau trafod <p>Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn dda, Diweddariadau ar gyfer Randdeiliaid yn dda.</p>
--	---

	<p>Ymgysylltu ar lefel uchel yn bwysig – e.e. Gareth a Gian Marco.</p> <p>Cyfarfodydd wyneb yn wyneb.</p> <p>Mae'r cylchlythyrau Cynllunio Morol yn llawn gwybodaeth.</p> <p>Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gofyn am adborth gan y grŵp ar ganlyniadau.</p> <p>Mae WMFAG yn dryloyw iawn gyda'i aelodaeth (mae'n rhestru'i holl flaenoriaethau, hyd yn oed os na fwrir ymlaen â hwy oherwydd cyllid/capasiti). Mae hyn yn braf i'w weld.</p>
<p>A ydych o'r farn fod y diweddariad ar gyfer rhanddeiliaid yn ennyn diddordeb?</p>	<p>Mae'n rhy hir. Efallai y byddai cylchlythyr hyperddolen/ffrwd Twitter ar gyfer WMAAG yn well am ennyn diddordeb.</p>
<p>A oes modd defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol fel Twitter yn fwy effeithiol?</p>	<p>Oes!</p> <p>Sianel Twitter ar gyfer WMAAG sy'n aildrydar trydariadau ei aelodau yn ogystal â'i rai ei hun.</p>

<p>Sut ydych yn hyrwyddo datblygiadau Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng eich rhwydweithiau?</p>	<p>Trwy e-bost 'Safle cyffredin' Cyfarfodydd Blogiau Y cyfryngau cymdeithasol Y wefan</p>
--	---